


ARTS CELF

FOR HEALTH AND WELLBEING

AR GYFER IECHYD A LLES



Y CELFYDDYDAU AM IECHYD A LLES



- 
- 1 Croeso a neges gan y Cadeirydd
2 Cyflwyniad
3-4 Beth ydyn ni'n ei wneud
5-6 Ein Tîm
7 Cyllid
8 Codi Arian
9-10 Oriel yr Hearth
11-12 Newid yr Amgylchedd Clinigol
13-14 Dathlu Diwylliant a Chynhwysiant
15 Cefnogi Iechyd a Lles Meddyliol
16 Dôl ein Hiechyd a Chelfyddydau Awyr Agored
17 Ysbyty Brenhinol Caerdydd: Pobl, Lle, Dyfodol
18 Ymwneud Digidol a Gadael Gwaddol Arlein
19-20 Trysori Treftadaeth y GIG
21 Llwyddiannau
22 Ymwneud - Cyfryngau Cymdeithasol
23 Beth Nesaf? 2023
24 Adfyfyrio
25 Gwybodaeth Bellach

CROESO A NEGES GAN Y CADEIRYDD



CHARLES JANCZEWSKI

Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Rydym yn ffodus iawn fod rhaglen y Celfyddydau am Iechyd a Lles ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn parhau i bontio rhwng y celfyddydau ac iechyd ledled Caerdydd a Bro Morgannwg. Yr ydym yn creu y bydd grym y celfyddydau a diwylliant yn trawsnewid ac yn cyfoethogi bywydau ac iechyd ein cleifion, staff ac ymwelwyr, ac y mae hyn yn rhywbeth y mae'r rhaglen yn parhau i wneud flwyddyn ar ôl blwyddyn, gan feithrin a hwyluso mynediad at weithgareddau celfyddydol a diwylliannol er mwyn gwella iechyd a lles.

Trwy wrando ar y cleifion, ymwelwyr a'n staff, a gweithio mewn partneriaeth a mudiadau eraill, mae Rhaglen y Celfyddydau am Iechyd a Lles yn parhau i ragori wrth greu gwell darpariaeth i'r sawl nad ydynt yn cael gwasanaeth digonol ar hyn o bryd; yn enwedig y sawl sy'n cael eu heithrio o gyfleoedd i arwain neu gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol oherwydd anabledd neu gyflyrau iechyd tymor hir.

Mae'r GIG yng Nghymru yn parhau i wynebu galwadau digynsail ac y mae'r gefnogaeth gan y Tîm Celfyddydau yn hynod werthfawr i'n cleifion a'n staff yn y cyfnod anodd hwn pan fo pawb dan bwysau. Mae cydnabod a chreu cyfleoedd i gyfoethogi a chyflenwi anghenion ysbrydol ac emosiynol ein cleifion a'n staff trwy Gelfyddyd wedi bod mor bwysig am ei fod yn eu helpu i wynebu heriau bob dydd gyda chryfder a hyder.

Rwy'n dal i fod yn hynod falch o'r gwaith a wneir gan y tîm, a'r ffordd y mae wedi gwreiddio celf yn y ffordd y gofalwn am ein cleifion a'n staff, gan newid agweddau, herio rhagfarn a hyrwyddo cynhwysiant, yn ogystal â phwysleisio pwysigrwydd lles meddyliol ac ysbrydol.

Rwy'n teimlo bod yr adroddiad hwn yn taflu goleuni ar waith rhyfeddol rhaglen y Celfyddydau am Iechyd a Lles, ac yr wyf yn edrych ymlaen yn wastad at weld prosiectau yn y dyfodol yn dwyn ffrwyth.

CYFLWYNIAD

Mae pob blwyddyn yn dod a heriau newydd ac annisgwyl yn aml i'r GIG. Mae darparu gwasanaethau iechyd yn dal dan straen aruthrol, ac yr ydym yn falch ein bod ni, fel y Tîm Celfyddydau am Iechyd a Lles, gyda chefnogaeth Elusen Iechyd swyddogol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, yn dal i chwarae rhan allweddol i gefnogi staff, cleifion a'n hymwelwyr.

Bu'n flwyddyn ryfeddol o ddatblygu rhaglen strategol ac arloesol o weithgareddau seiliedig ar y celfyddydau sydd yn cynnal ac yn hyrwyddo iechyd a lles. Ac yr ydym ni ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn credu'n gryf yng ngwerth y celfyddydau creadigol i adeiladu cymunedau iach a mwy gwydn.

Rydym yn parhau i weld y llawenydd a'r ymdeimlad o dangnefedd y gall gweithgaredd creadigol ei roi i ddefnyddwyr gwasanaeth a staff fel ei gilydd. Gwelwn o'n rhaglen gyfoeth o dystiolaeth fod y manteision i iechyd o gymryd rhan mewn gweithgareddau artistig yn sylweddol, ac y mae'n arwydd o'r ymrwymiad a wnawn i wreiddio'r celfyddydau ar hyd a lled y Bwrdd Iechyd.

Boed yn ddawns, cân, barddoniaeth, ffotograffiaeth neu wella amgylcheddau, mae cyfle i bawb gymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol

Mae Tîm y Celfyddydau, trwy Raglen y Celfyddydau am Iechyd a Lles, yn parhau i gysylltu ei hun ag amcan y Bwrdd Iechyd o gefnogi lles y staff, ac y mae'r adroddiad hwn yn rhoi rhai esiamplau gwych o'r modd yr ydym yn parhau i wneud hyn, gan chwalu ffiniau a rhagdybiaethau wrth wneud hynny. Gobeithio y mwynhewch ddarllen amdanynt.





BETH YDYN NI'N EI WNEUD



4

BETH YDYN NI'N EI WNEUD



EIN TÎM



Simone Joslyn
Pennaeth Elusen y Celfyddydau
ac Iechyd

Rôl Simone yn Rhaglen y Celfyddydau am Iechyd a Lles yw gyrru a chefnogi'r rhaglen gelfyddydau ar draws y Bwrdd Iechyd, gan weithio gyda phartneriaid a'r tîm i roi profiad cadarnhaol a deiliant iechyd i gleifion, staff, gwirfoddolwyr a'n cymunedau.

"Bob blwyddyn, rwy'n rhyfeddu at effaith y rhaglen gelfyddydau ac y mae'n ffrind i mi weithio gyda thîm gwyb o staff sy'n gweithio'n galed iawn i wneud y rhaglen yn llwyddiant: artistiaid rhyfeddol a mudiadau celfyddydol anhygoel."



Melanie Wotton
Rheolwr Prosiect y Celfyddydau
mewn Iechyd

Mae sawl agwedd i rôl Melanie fel Rheolwr Prosiect yn y Tîm Celfyddydau mewn Iechyd a Lles Team, gan ei fod yn ymgorffori dylunio prosiectau celfyddydol, curadu a rheoli, a chynnal rhwydwaith cynyddol o randdeiliaid, partneriaid, aelodau staff, grwpiau cymunedol, artistiaid a sefydliadau celfyddydol i greu ymyriadau celfyddydol arloesol a chynaliadwy yn ein cymunedau.

"Mae'n bleser pur gweithio gydag artistiaid talentog o Gymru sydd ar flaen y gad gyda'r Celfyddydau mewn Iechyd yn y DU."



Alex Staples
Rheolwr Prosiect y
Celfyddydau mewn Iechyd

Rôl Alex yn y tîm Celfyddydau am Iechyd a Lles yn bennaf yw gweithio i greu amgylchedd cadarnhaol i helpu adferiad mewn ysbyty trwy gelfyddyd. Mae hyn yn rhywbeth rwyf yn gweithio tuag ato ar ein holl safleoedd ysbyty, gan barhau i ddatblygu'n strategol a thyfu Rhaglen y Celfyddydau am Iechyd a Lles yn ein hysbytai a'r cyffiniau a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau ein cleifion, ymwelwyr a'n staff.

"Bob dydd byddaf yn wynebu her wahanol, gan weithio gyda rhanddeiliaid, rhwydweithiau celf lleol, darparwyr a mudiadau celfyddydol i ddarparu a rheoli prosiectau o bob agwedd ar y celfyddydau, gan gynnwys cerddoriaeth, y celfyddydau gweledol a dawnys, a'u defnyddio oll i wneud pethau'n well i'r sawl sy'n dod i'n hysbytai ac i genedlaethau'r dyfodol."

EIN TÎM



Bex Betton
Swyddog Cefnogi Codi Arian
y Celfyddydau

Rôl Bex yn Rhaglen y Celfyddydau am Iechyd a Lles yw codi arian i gefnogi parhad a datblygiad y rhaglen, sy'n cynnwys rhedeg digwyddiadau codi arian, gwneud cais i gyllidwyr allanol, a hyrwyddo ein dewisiadau yn Rhoddion mewn Ewyllysiau.

"Cof sydd gen i am 2022 yw rhedeg 'Gig Fawr y GIG' gyda chefnogaeth Nathan Wyburn. Roedd yn hyfryd gweithio gyda chymaint o gerddorion dawnus oedd wedi rhoi eu hamser a'u sgiliau i godi arian i'r rhaglen, ac i weld y gynulleidfa yn dawnsio trwy'r prynhawn! "



Magda Lacowska
Cydlynnydd Arddangosfeydd

Magda yw Cydlynnydd Arddangosfeydd Oriel yr Hearth a mannau arddangos eraill yn ysbyty'r Brifysgol, Llandochoau ac Ysbyty'r Barri. Mae fy rôl yn Rhaglen y Celfyddydau am Iechyd a Lles yn cynnwys trefnu a churadu arddangosfeydd, cysylltu ag artistiaid, a chyfathrebu.

"O edrych yn ôl at 2022, fy hoff foment o'r flwyddyn oedd cynnal arddangosfa 'Pwytho Dementia'. Cawsom ymateb rhyfeddol i'r gwaith celf, ac yr oedd yn anhygoel gweld ymateb teimladwy'r ymwelwyr."



Justine Winter
Uwch-Swyddog Cyfathrebu

Justine yw'r Uwch-Swyddog Cyfathrebu: mae hi'n cefnogi Tîm y Celfyddydau trwy helpu i hyrwyddo pob prosiect, a chodi ymwybyddiaeth o waith arbennig y Tîm gyda chleifion, staff ac ymwelwyr.

Yn 2022 roedd blwyddyn wedi mynd heibio ers i mi gael fy nghyflogi yn Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro, ac yr wyf wedi mwynhau pob munud. Mae cymaint o waith, a does dim un diwrnod yr un fath. Mwynheais yn arbennig y Gweithdy Creu Torch am fy mod yn gallu cymryd rhan a mynd i ysbryd yr ŵyl yn gynnar!



Karolina Birger
Intern Celfyddydau a Busnes Cymru

Rôl Karolina yn Rhaglen y Celfyddydau am Iechyd a Lles yw cefnogi'r tîm mewn gwahanol ffyrdd. Mae'n helpu gyda'r digwyddiadau, ac yn dysgu sut i ysgrifennu ceisiadau am grantiau a helpu gyda'r arddangosfeydd yn Oriel yr Hearth.

CYLLID

£

49,351

Gwnaed cais llwyddiannus am gyllid ar gyfer Ysbyty Brenhinol Caerdydd: prosiect Pobl, Lle, Dyfodol gan Gyngor Celfyddydau Cymru Celfyddydau o Gronfa'r Loteri Iechyd a Lles 2021-2022

£

28,600

Cyllid wedi ei sicrhau ar gyfer Celfyddydau Ifanc am Newid, o gronfa'r Celfyddydau a Meddyliau, Blwyddyn 2 Sefydliad Baring a chyllid Cyngor Celfyddydau Cymru 2022-2023

£

1,350

Cyllid wedi ei sicrhau o Loteri Elusen Staff Iechyd Caerdydd a'r Fro ar gyfer prosiectau Tredegarville Tales.

£

79,998

Gwnaed cais llwyddiannus am o Gyllid Elusennau'r GIG ynghyd 2022 am Brosiect Celfyddydau-mewn-Rhagnodi-Cymdeithasol

£

6,400

Cyllid wedi ei dderbyn gan Loteri Elusen Staff Iechyd Caerdydd a'r Fro i gwblhau Llinell Amser Treftadaeth i Ysbyty Brenhinol Caerdydd

£

35,000

Rhaglen Meithrin HARP- (Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Lab) - Mae cyllid o Raglen meithrin HARP wedi cefnogi Rhaglen y Celfyddydau am Iechyd a Lles i lansio menter gyffrous y celfyddydau mewn iechyd gyda'r nod o wreiddio celfyddydau creadigol er lles pobl sy'n byw gyda ffibrosis cystig.



CODI ARIAN

OCSIWN GELF ARLEIN Y GIG

Gwnaethom drefnu ocsiwn ar-lein dros y gwanwyn i werthu gwaith celf a roddwyd yn garedig gan artistiaid fu'n gweithio gyda ni dros y blynyddoedd, yn ogystal â rhai sy'n newydd i'r Rhaglen Celfyddydau am lechyd a Lles. Yr oedd y darnau a roddwyd yn arddangos amrywiaeth fawr o arddulliau unigol, gan gynnwys gwaith gan Harry Holland, Malcolm Murphy, Nathan Wyburn, Jacqueline Alkema a llawer mwy o artistiaid hynod o ddawnus. Rhoddwyd dros 50 o ddarnau celf i'r ocsiwn, a chodwyd £2,151.88.



GIG MAWR Y GIG

Ar ddydd Sadwrn, 20 Awst, rhedodd y Tîm Celfyddydau am lechyd a Lles Gig Fawr y GIG gyda chefnogaeth Noddwyr yr Elusen lechyd, Nathan Wyburn, yng Nghwrt Coffi St Andrew. Yn y digwyddiad, yr oedd perfformiadau gan lawer o fysgwyr talentog, gydag amrywiaeth o stondinau gan artistiaid a chrefftwyr lleol.

GWEITHDU GWNEUD TORCH NADOLIG

Trefnwyd Gweithdy Gwneud Torch Nadolig Gyda Hearts and Flowers / About Flowers i godi arian i Raglen y Celfyddydau am lechyd a Lles. Cynhaliwyd y digwyddiad yn Nhŷ Woodland a chroesawyd bron i 50 i gymryd rhan, a llawer ohonynt yn aelodau o staff y Bwrdd lechyd, mewn dau eisteddiad gyda diodydd poeth a theisennau. Cynhaliwyd raffl hefydgyda thocynnau ar gael i'w prynu ar-lein cyn y gweithdy, a busnesau lleol wedi rhoi'r gwobrau. Yr oedd pawb wedi mwynhau'r digwyddiad, a chodwyd dros £1,000.



CELFWAITH ER COF

Fel rhan o'n Hymgyrch Rhoddion mewn Ewyllysiau, rydym yn falch o gyflwyno dewisiadau i gefnogwyr greu neu gomisiynu gwaith celf i un o'n hysbytai er cod am rywun arbennig. Eleni, rydym wedi cefnogi lawer o deuluoedd i godi arian neu gomisiynu darn sy'n adlewyrchu eu hanwyliaid ac y gellir ei rannu gyda'n cleifion, staff ac ymwelwyr.



Oriel yr Hearth

UCHAFBWYNTIAU

ARDDANGOSFEYDD

Ocsiwn Gelf Arlein y GIG 2022

21 Mawrth – 2 Mai 2022

Cynhaliodd Tîm y Celfyddydau am Iechyd a Lles yn Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro Ocsiwn Gelf Arlein gyntaf y GIG i godi arian i Raglen y Celfyddydau am Iechyd a Lles.

Yr oedd yr holl weithiau i'w gweld yn Oriel yr Hearth ar gael fel rhan o'r ocsiwn, wedi eu rhoi'n garedig gan artistiaid sydd wedi gweithio gyda ni dros y blynnyddoedd, a rhai sy'n newydd i raglen y Celfyddydau am Iechyd a Lles. Yr oedd y darnau a roddwyd yn arddangos amrywiaeth fawr o arddulliau unigol, gan gynnwys gwaith gan Harry Holland, Malcolm Murphy, Nathan Wyburn, Jacqueline Alkema a llawer mwy o artistiaid hynod o ddawnus.



Pwytho Dementia

4 Mai – 13 Mehefin 2022

Yr oedd yn bleser gan Oriel yr Hearth gyflwyno 'Pwytho Dementia' - arddangosfa gan yr artist amlgyfrwng Jenni Dutton. Yn y gwaith hwn, mae Jenni yn ymateb i ddiagnosis o ddementia ei mam trwy ddefnyddio pwythau i ail-greu portreadau o'i mam o hen luniau. Teithiodd yr arddangosfa yn helaeth o gwmpas y DU ac i Ewrop a China. Dyma'r tro cyntaf iddi ymddangos yng Nghymru, ac yr oedd Oriel yr Hearth yn falch o'i chynnal.



'You Scrub up Well' – Arddangosfa o Leisau CF

26 Gorffennaf – 5 Medi 2022

Yn arddangosfa 'You Scrub Up Well' yr oedd gweithiau celf a grëwyd gan y rhai a gymerodd rhan ym mhrosiect Lleisiau CF. Cydweithrediad oedd y prosiect rhwng Tîm y Celfyddydau am Iechyd a Lles, Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro, BIPCF, Four in Four a staff Canolfan Ffibrosis Cystig Oedolion Cymru Gyfan, Ysbyty'r Brifysgol Llandochoau a'r Tîm Amlddisgyblaethol.

Crëwyd y gweithiau celf oedd yn cael eu dangos gan Bobl yn Byw gyda Ffibrosis Cystig fel ymateb uniongyrchol i weithdai a sesiynau celfyddydau creadigol a gyflwynwyd gan Four in Four trwy gydol y prosiect. Yr oedd y sesiynau yn gadael i'r cyfranogwyr ddefnyddio'r celfyddydau creadigol fel ffordd o fynegi, gan roi syniad i'r gwyliwr o'r profiad o gael diagnosis o Ffibrosis Cystig.



Oriel Yr Hearth

UCHAFBWYNTIAU

ARDDANGOSFEYDD

Arddangosfa Agored y Gaeaf 2022
22 Hydref 2022 – 2 Chwefror 2023

Ar ôl ymateb hynod gadarnhaol i'r alwad am artistiaid, dangosodd Arddangosfa Agored y Gaeaf 2022 baentiadau, darluniau, ffotograffiaeth, serameg a phrintiadau a grëwyd gan staff, cleifion, aelodau o'n cymuned, ac artistiaid fu'n gysylltiedig â ni yn ddiweddar. Yr ydym yn falch iawn fod neges bositif Rhaglen y Celfyddydau am lechyd a Lles yn cyrraedd cynulleidfa ehangach.



Canopiau Creadigol: Storiâu Natur a Threftadaeth

20 Ebrill – 6 Mehefin 2022

Yr oedd Canopiau Creadigol: Storiâu Natur a Threftadaeth yn gydweithrediad cyffrous rhwng myfyrwyr ar y radd BA (Anrh.) Celfyddydau Creadigol a Therapiwtig ym Mhrifysgol De Cymru a'r Uned Asesu ac Adfer yn y Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn (GIMPH) yn Ysbyty'r Brifysgol Llandochoau. Cyfarfu'r grwpiau ar-lein a thrafod pethau oedd yn bwysig iddynt. Ymysg y themâu roedd bywyd gwyllt lleol, lliwiau llachar a rhaglenni teledu am fyd natur.

'Mark Things' – Arddangosfa er cof am Mark Stephens

31 Awst – 31 Hydref 2022

Trefnwyd arddangosfa 'Mark Things' er cof am Mark Stephens, gweithir cefnogi gofal iechyd Uned Ddydd Ash a fu farw yn 2021. I ddathlu'r effaith gafodd Mark ar bawb o'i gwmpas, creodd staff a chleifion y Gwasanaethau Dydd Niwroseiciatryddiaeth weithiau celf yn ei gof, a ddangosodd eu sgiliau a rhoi syniad i ni o'r ysbrydoliaeth a ledaenodd Mark trwy ei waith i'r cleifion a'i gydweithwyr.



NEWID YR AMGYLCHEDD CLINIGOL



Ynys Saff – Canolfan Gyfeirio wedi Ymosodiad Rhyw - SARC

Comisiynwyd Rhaglen y Celfyddydau i wneud y gofod Ynys Saff yn y Canolfan Gyfeirio wedi Ymosodiad Rhyw (SARC) yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd yn fwy deniadol er mwyn creu amgylchedd diogel i'r sawl a ddaeth i ddefnyddio'r gwasanaeth.

Mae Ynys Saff yn darparu gwasanaeth i unigolion yr effeithiodd ymosodiadau rhyw arnynt, ac wedi gwaith adeiladu, yr oedd yr adran yn edrych yn glinigol a moel iawn. Gyda chefnogaeth Loteri'r Staff, mae gosod y gweithiau celf sy'n dangos golygfeydd o natur yn y manau aros wedi golygu bod yr adran nawr wedi ei thrawsnewid i fod yn ofod saff a diogel i unigolion sy'n aros am eu hapwyntiadau a'u harchwiliadau.

“Bydd ein prosiect yn gwneud gwahaniaeth i bawb a ddioddefodd ymosodiad rhyw, yn enwedig y sawl sydd angen archwiliad meddygol fforensig dwys.

Bydd gofod tawel hefyd yn cael effaith cadarnhaol ar les y staff sy'n gweithio bob dydd gyda chleientiaid a ddioddefodd drawma.”

Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd Caerdydd a'r Fro GCICF

I wella'r amgylchedd i gleifion sy'n ymweld â Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd Caerdydd a'r Fro (GCICF) yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd, comisiynodd Rhaglen Celfyddydau am Iechyd a Lles amrywiaeth o weithiau celf, a rhai ohonynt wedi eu cefnogi trwy garedigrwydd arian a ddarparwyd gan Elusennau'r GIG Ynghyd, i gael eu harddangos i bawb eu gweld. Mae'r casgliad yn cynnwys darn unigryw o waith gwydr gan Gray Glass sy'n dathlu esblygiad Practis Mynediad at Iechyd Caerdydd (CHAPS) i'r gwasanaeth newydd GCICF, ynghyd â murluniau a ddyluniwyd yn benodol i'r manau aros.



“Mae'r gweithiau celf newydd wedi trawsnewid wal foel GCICF, gan helpu i greu ystafell aros sy'n gynnes a chroesawgar. Roeddem yn awyddus i'r gweithiau celf adlewyrchu ein nod y gallai unigolion o bob cwrs o'r byd, wrth basio trwy'r adran, deimlo eu bod yn cael gwerth a pharch.”

Dr Ayla Cosh, Cyfarwyddwr Clinigol GCICF

NEWID YR AMGYLCHEDD CLINIGOL

Superhero Vinyl

Gyda chyllid gan Elusennau'r GIG Ynghyd, yr oedd Tîm y Celfyddydau am lechyd a Lles yn Elusen lechyd Caerdydd a'r Fro wrth eu bodd i gomisiynu feinyll wal newydd gyda Grosvenor Interiors.

Trwy gydol pandemig COVID-19, cyfeiriwyd yn aml at staff y Bwrdd lechyd fel archarwyr am eu cryfder, eu hymrwymiad a'u gwytnwch anhygoel mewn cyfnod heriol. Mae'r feinyll wal yn adlewyrchu'r thema archarwyr sy'n dal yn wir am ein staff yng nghynifer o swyddi'r Bwrdd lechyd.



Mae'n wych gweld y ddelwedd liwgar a chadarnhaol hon y tu allan i un o'n clinigau yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd. Mae'n rhoi teimlad croesawgar a chynhwysol i'r holl gleifion a'r staff – ac ydyn, mae'r staff yn archarwyr!

Lynne Topham. Rheolwr Lleoliad, De a Dwyrain Caerdydd



Cathy May

Cwblhawyd murlun newydd yn yr Adran Ffisioleg Gardiaidd gan yr artist lleol Cathy May, a gyllidwyd gan Gronfa Gardiaidd Elusen lechyd Caerdydd a'r Fro.

Mae muriau'r Adran Ffisioleg Gardiaidd yn awr yn dwyn darluniadau hyfryd o'r galon, gyda gwinwydd, dail a deiliach arall yn dod allan o'r rhydweliâu. Mae'n ddelwedd o ymrwymiad Tîm yr Adran Ffisioleg Gardiaidd i arbed bywydau cleifion gyda chlefyd y galon.



DATHLU DIWYLLIANT A CHYNHWYSIANT

Haf Weighton

Mae Haf Weighton wedi cwblhau'r darn Sain fy Llais a grëwyd yn ystod sesiynau wythnosol yng Nghanolfan Ffoaduriaid Oasis yn Sblot, yn hydref 2021.

Yn y darn hwn, crëwyd geiriau o groeso mewn sawl iaith a thafodiaith a chan ddefnyddio gwanhaol fathau o nodau, yn bennaf gan ddynion oedd yn ymweld â'r ganolfan. Yr oedd hyn yn broses feddylgar o bwytho, gan annog trafodaeth ac ymwneud, yn aml gyda phobl nad oeddent yn siarad yr un iaith. Mae'r darn yn dal storïau emosiynol a grymus pam fod pobl wedi dod i Gymru, a'r dyfodol roeddent yn gobeithio ei gael yma.


Rwy'n gobeithio y bydd y darn yn anfon neges rymus o groeso i bobl sydd wedi eu cael eu hunain yng Nghymru, neu fel y dywed arwyddair Oasis, 'Croeso cynnes Cymreig'.

Haf Weighton – Artist

Karen O Shea – Pride

Trwy ei Raglen y Celfyddydau am Iechyd a Lles, comisiynodd Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro Karen O'Shea i greu darn arbennig o waith celf mewn tecstilau i ddathlu'r gymuned LGBTQ+ a chefnogi mwy ar agenda cynhwysiant y Bwrdd Iechyd.

Artist lleol mewn tecstilau yw Karen ac y mae'n athrawes sy'n frwd dros gynaliadwyedd. Mae'n defnyddio deunyddiau eilgylch, naturiol yn bennaf, ac wrth ei bodd yn ysbrydoli eraill i fod yn greadigol ym mhob ffordd, yn enwedig pwytho. Yr oedd Tîm y Celfyddydau yn falch o gomisiynu Karen i wneud y darn newydd hwn fydd yn hyrwyddo dewisiadau pobl mewn bywyd trwy ei gweithiau celf bywiog a lliwgar.



DATHLU DIWYLLIANT A CHYNHWYSIANT

Nathan Wyburn

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wëld comisiynu llawer o weithiau celf; am enwogion LGBTQ+ a'r cymeriadau maent wedi eu portreadu ar y sgrin, a chan artistiaid LGBTQ+ sy'n awyddus i fynegi eu lleisiau trwy gelfyddyd. Celfyddyd oedd thema Mis Hanes LGBTQ+ eleni, ac y mae gennym bedwar darn anhygoel yn cael eu harddangos yn Ysbyty Athrofaol Cymru, wedi eu creu gan yr artist a noddwyr yr Elusen Iechyd Nathan Wyburn.

Gwnaed y portreadau hyn, ynghyd ag eraill, i amlygu dyddiadau arwyddocaol trwy'r flwyddyn galendr, o Pride i Ddiwrnod Aids y Byd, Wythnos Brofi am HIV i Ddiwrnod Coffa Trawsrywedd. Yma yn Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro a Rhaglen y Celfyddydau am Iechyd a Lles, rydym yn falch o ddathlu cynhwysiant a'r hyn sy'n ein gwneud yn unigryw yn y byd newidiol hwn.



Kiran Cymru

Mae Cerddoriaeth er Lles yn brosiect 2 flynedd a gyllidwyd gan Elusennau'r GIG Ynghyd fydd yn cefnogi KIRAN Cymru i gyflwyno sesiynau cerddoriaeth a rhannu i'w rhaglen gyda Rhaglen y Celfyddydau am Iechyd a Lles

Mae KIRAN Cymru yn fudiad sy'n gweithio i hybu lles i bobl yng Nghymru gan ganolbwyntio'n arbennig (ond nid yn unig) ar bobl o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig yng Nghymru



“Mae KIRAN Cymru yn falch o fod wedi derbyn arian am brosiect o'r enw Cerddoriaeth er Lles dan Raglen y Celfyddydau am Iechyd a Lles Elusennau'r GIG Ynghyd. Bydd y prosiect unigryw yn parhau am 2 flynedd o 2023 tan 2024 ac yn galluogi aelodau'r gymuned i wella eu lles trwy ddysgu sut i chwarae Djembe a Tabla. Bydd y gweithgareddau rhannu yn seiliedig ar gerddoriaeth, ffilm, diwylliant a bwyd, ac yn galluogi'r sawl sy'n cymryd rhan i wneud ffrindiau newydd o gefndiroedd cymdeithasol-ddiwylliannol amrywiol.”

Neil Mukerji, Cyfranogydd ac Arweinydd y Prosiect



CEFNOGI IECHYD A LLES MEDDYLIOL

Louise Jensen

Mae'n bleser gennym gyflwyno Ysbrydolwyd Gan ...arddangosfa o waith a grëwyd gan gyfranogwyr sesiynau celf creadigol dan arweiniad yr artist Louise Jensen a chyda chefnogaeth Adnodd Iechyd Meddwl 4 Winds dros aeaf/gwanwyn 2022. Mae Ysbrydolwyd Gan ... yn arddangosfa o waith a grëwyd gan gyfranogwyr sesiynau celf creadigol dan arweiniad yr artist Louise a chyda chefnogaeth Adnodd Iechyd Meddwl 4 Winds dros aeaf/gwanwyn 2022. Trwy ymchwilio i 'Bortreadau', 'Patrymau mewn Natur' a'r gallu i ddal 'Y Lle Hwn', bu dros 25 o gyfranogwyr dros wyth mis yn rhan o greu'r darnau hyn, i adlewyrchu a dal cysylltiadau ystyrlon.

Talwyd am y prosiect trwy Raglen Celf a'r Meddwl, menter gan Gyngor Celfyddydau Cymru / Sefydliad Baring, a'i gefnogi trwy Dîm, y Celfyddydau am Iechyd a Lles, Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro



Côr Calon Na'd Fi'n Angof

Mae Côr Na'd Fi'n Angof, mewn partneriaeth â Rhaglen y Celfyddydau am Iechyd a Lles, yn dod â chôr newydd i Gaerdydd i gefnogi'r sawl a gafodd brofedigaeth wedi gofalu am rywun annwyl â dementia - Côr Na'd Fi'n Angof Calon

Gall profedigaeth effeithio ar deulu a chyfeillion yn emosiynol a chorfforol, a gall effeithio hefyd ar les meddyliol. Trwy Calon, rydym yn cynnig profiad llawen a dyrchafol, gan leihau'r teimladau o unigrwydd a all ddilyn profedigaeth.

Mae'n braf gallu siarad â phobl yn yr un sefyllfa; does yr un o'n ffrindiau yn yr un sefyllfa ac er eu bod yn cydymdeimlo, 'dyn nhw ddim yn deall; fan hyn, mae pobl yn deall.' -

Cyfranogydd FMNC



Rubicon



Yr oedd yn falch gan y tîm Celfyddydau am Iechyd a Lles gomisiynu y rhai fu'n gydweithwyr ers amser, Rubicon Dance, i weithio gyda chleifion o'n Hadran Niwroseiciatryddiaeth yn Hafan y Coed trwy gyllid gan Sefydliad Baring a Chyngor Celfyddydau Cymru.

EIN DÔL IECHYD A CHELFYDDYDAU AWYR AGORED

Canopi Gwyrdd y Frenhines

Yr oedd yn bleser gan gleifion a staff yn uned cleifion Gwasanaethau Iechyd Meddwl Pobl Hŷn, Ysbyty'r Brifysgol Llandochoau, dderbyn coeden draenen wen gan ddarlithwyr a myfyrwyr ar y cwrs Celfyddydau Creadigol a Therapiwtig ym Mhrifysgol De Cymru fel rhan o'n gwaith ar y cyd ar Ganopi Gwyrdd y Frenhines. Gydachefnogaeth Elusen Iechyd y Celfyddydau Caerdydd a'r Fro, buom yn gweithio gyda myfyrwyr Prifysgol De Cymru i gyflwyno prosiectau celf ar-lein i gleifion yn GIMPH i ddathlu prosiect Canopi Gwyrdd y Frenhines a'r Jiwbilî Platinwm.



Dilys Jackson - Pollen

Croesawyd yr artist Dilys Jackson i'r safle i ddadorchuddio ei cherflun Paill yn Ein Dôl Iechyd. Mae Dilys wedi cefnogi ein Rhaglen y Celfyddydau yn y Bwrdd Iechyd ar sawl achlysur, gan rannu ein cred yng ngrym y celfyddydau creadigol i wella ein lles a dod â phobl at ei gilydd.

Dilys Jackson yw un o gerflunwyr mwyaf blaenllaw Cymru sydd ag enw da yn genedlaethol ac yn rhwngwladol am greu cerfluniau, gosodiadau a darluniau celfyddyd Efydd a Cherrig. Mae ei gwaith i'w weld mewn casgliadau a lleoliadau ledled y DU ac rydym yn falch iawn o fod wedi gallu comisiynu Dilys i greu'r cerflun Paill gwyh hwn ar gyfer Ein Dôl Iechyd.



Dychmygwch petai gennym Rywle Hyfryd i Fynd

Crëwyd y gwaith celf hwn gan fyfyrwyr Gweithdy Beth Morris i ddathlu lansio Llwybr Iechyd a Lles y Ddôl, sy'n cysylltu Ysbyty Athrofaol Cymru a'r dolydd ym Mharc yr Heath. Mae'r man gwyrdd hyfryd hwn ar gael i staff, cleifion, ymwelwyr, a'r gymuned ehangach i ymlacio, a mwynhau bod yng nghanol planhigion ac anifeiliaid y ddôl.

Bu plant Gweithdy Beth Morris (6-16 oed) yn dychmygu byd lle maen nhw yn fychan bach a bywyd gwyllt y ddôl, sydd fel arfer yn fach ac weithiau'n cael ei anwybyddu, yn sydyn iawn yn enfawr. Maent wedi tynnu lluniau o chwarae ac ymlacio mewn cae chwarae naturiol dychmygol.



YSBYTY BRENNHINOL CAERDYDD, POBL, LLE, DYFODOL


Duke Al yn Cyflwyno Sesiynau Ysgrifennu Barddoniaeth ar y Cyd â Gwasanaeth Iechyd Meddwl Cymunedol Links

Yr oedd Letters to Us yn brosiect celfyddydau hynod lwyddiannus ac effeithiol; nid yn unig yr oedd yn datblygu sgiliau barddoni'r sawl oedd yn cymryd rhan, ond yr oedd yn rhoi iddynt yr arfau i ddeall mwy am eu cyflwr iechyd meddwl a'u cyflwyno i strategaethau lles newydd.

Yr oedd rhannu storïau personol trwy farddoni yn magu hyder trwy gydol y cwrs, ac yn rhoi dealltwriaeth o iechyd meddwl y cyfranogwyr eraill.

Yr Actor, Daniel Buck, yn Cynnal Prosiect Creadigol gydag Ysgol Gynradd Tredegarville

Cyflwynodd Daniel weithdai arloesol mewn ysgrifennu creadigol, gwaith byrfyfyr a chwarae rôl i fyfyrwyr yn Ysgol Gynradd Tredegarville, gyda'r bwriad o wella sgiliau llefaredd ac ysgrifennu trwy actio ac adrodd storïau. Defnyddiodd y myfyrwyr y sgiliau a ddysgwyd i greu llyfr wedi canoli ar eu storïau am Ysbyty Brenhinol Caerdydd.



Dawnsio'r Hunan

Bwriad y sesiynau symud a gyflwynwyd ar y cyd gyda Zosia, Jo, Natalie Corne a Chymorth i Fenywod Caerdydd oedd cefnogi menywod a phobl o ryweddau a dangynrychiolir, ac yr oeddent yn canoli ar adennill y corff a rhoi grym i'r symudwyr i wneud dewisiadau am y ffordd maent yn byw yn eu cyrff ac yn y gofod o'u cwmpas.

Ffotograffiaeth gan Mostafa Abdel-Aty



YMWNEUD DIGIDOL A GADAEL GWADDOL ARLEIN

HOSPES

Mae 'HOSPES' yn osodiad trochi, safle-benodol ac yn borthol arlein sy'n canoli o gwmpas Ysbyty Brenhinol Caerdydd, ac wedi ei greu gan y cyfansoddwr a'r artist amlgyfrwng John Meirion Rea, mewn cydweithrediad â'r ffotograffydd sinema a'r ffotograffydd Huw Talfryn Walters.

Treuliodd John un mis ar ddeg yn estyn allan i'r strydoedd a'r maestrefi gerllaw, yn cofnodi sgysiau, seinweddau haniaethol, ac yn dal delweddau mewn ymgais i ddiffinio beth yw 'Cymreigrwydd trefol'. Mae'r cyfansoddiad sain a'r gosodiad rhyfeddol yn dathlu lleisiau cryf ein cymunedau amlddiwylliannol unigryw.

Cynhaliwyd y gosodiad yn y Capel i Bawb yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd o Hydref 18-25, ac y mae'r porthol arlein yn dal ar agor i barhau â gwaddol digidol i'r prosiect celfyddydol arloesol hwn.

<https://www.hospescardiff.com/>



Gweld - Haf Weighton

Comisiynwyd Haf Weighton a Dewi Tannatt Lloyd i ddyfeisio a gweithio ar brosiect, GWELD oedd yn defnyddio celfyddyd a ffotograffiaeth i ehangu profiad Caerdydd i grŵp o gleientiaid sy'n dod i Oasis, gan ddefnyddio'r dychymyg a phrofiadau go-iawn. Gweithiodd Haf gyda chleientiaid yn Oasis i greu cwiltiaid hyfryd ac ystyrion oedd yn mynegi eu storïau personol hwy, ac y mae Dewi Tannatt Lloyd wedi creu cwilt rhyngweithiol digidol arlein lle gallwch weld llawer o'r gwaith a grewyd, ac sydd hefyd yn waddol arloesol i'r prosiect.

http://dewitannatlloyd.co.uk/cvuhb_cri_gweld/

'Unlocked - Perfformiad Llafar gan Duke Al

Cydweithiodd Duke Al gyda'r fideograffydd Trevor Burgess, y darluniwr Dom Tsoi a'r cynhyrchydd cerdd Tom James, ynghyd â'r artist perfformio Ruby Atlanta Boland ac aelodau staff Ysbyty Brenhinol Caerdydd i greu perfformiad llafar er mwyn mynegi diolch i staff y GIG.

<https://cardiffandvale.art/2022/01/21/unlocked-a-spoken-word-performance-by-duke-al-durham/>

TRYSORI TREFTADAETH Y GIG

Capel i Bawb: Chapel for All - gan Malcolm Murphy

Comisiynwyd ar artist Malcolm gyda chyllid gan Loteri'r Staff i greu paentiad i gydnabod 100 mlynedd y capel yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd a'i ddyfodol disglair a chynaliadwy. Argraffwyd y gwaith celf ar gerdyn post a'i roi'n anrheg i'r staff presennol a chyn-aelodau i ddiolch iddynt am eu cyfraniad i Ysbyty Brenhinol Caerdydd.

<https://cardiffandvale.art/2022/02/08/capel-i-bawbchapel-for-all-painting-by-malcolm-murphy/>



Ysbyty Brenhinol Caerdydd – Llinell amser

Gyda chefnogaeth amgueddfeydd lleol, archifdai a chymuned Ysbyty Brenhinol Caerdydd, yr oedd y tîm Celfyddydau am Iechyd a Lles yn falch o greu llinell amser i adlewyrchu 200 mlynedd o ddarparu gofal iechyd yn ardal de a dwyrain Caerdydd, sy'n cael ei arddangos bellach yn y cyntedd Therapiau yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd.

Mae'r llinell amser yn dilyn taith yr ysbyty ers 1822 ac yn dal digwyddiadau arwyddocaol, llwyddiannau a newidiadau a ddigwyddodd yn yr ysbyty trwy gydol yr amser hwn yn ogystal â dangos sut fywyd fuasai i'r cleifion a'r staff oedd yno.

<https://cardiffandvale.art/2022/09/22/cardiff-royal-infirmary-timeline-200-years-of-organised-healthcare-being-provided-in-the-south-and-east-cardiff-locality-area/>

TRYSORI TREFTADAETH Y GIG

Wal Bywyd' Treftadaeth yn Ysbyty'r Barri

Cynlluniwyd hyn i ddechrau er mwyn dathlu 25ain pen-blwydd Ysbyty'r Barri yn 2020, ac y mae'r prosiect a gyllidwyd gan yr Elusen Iechyd yn olrhain hanes gofal iechyd yn y Barri a Bro Morgannwg dros y 100 mlynedd a aeth heibio, ac yn dathlu 25 mlynedd Ysbyty'r Barri yn ei leoliad presennol yn Heol Colcot.

Mae arteffactau a gasglwyd dros y blynyddoedd yn rhan o'r arddangosfa, a chynhwyswyd ffotograffau o Gasgliad y Bobl Cymru a staff Ysbyty'r Barri, gan greu mur dadlennol sydd bron yn rhyngweithiol.

<https://cardiffandvale.art/2022/03/31/heritage-wall-of-life-at-barry-hospital/>



I Bawb – gan Harry Holland

Ar ddydd Gwener, 17 Mehefin, cyfarfu Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Suzanne Rankin, â'r artist uchel ei barch o Gaerdydd, Harry Holland yn Ysbyty'r Brifysgol Llandochoau i gael golwg ar y campwaith diweddaraf a roddodd yn rhodd, sef darlun o Aneurin Bevan, sylfaenydd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

<https://cardiffandvale.art/2022/06/23/for-everyone/>



LLWYDDIANNAU

Grads in Games

Enillodd Swyddog Codi Arian y Celfyddydau mewn Iechyd, Bex Betton, wobwr Effaith Graddedigion gyda Grad in Games am ei chyfraniad i'r gymuned gemau leol a'r prosiectau cyfryngau a gyflwynodd ac a greodd gyda Rhaglen y Celfyddydau am Iechyd a Lles.



Grads in Games

Mae'r Uned Bediatrig Frys yn Ysbyty Athrofaol Cymru wedi ei thrawsnewid gyda chyfres o waith feinyll lliwgar yn addurno'r waliau.

Mae'r delweddau hyd yn oed yn cynnwys mascot yr adran, sef draig goch gyda bandej a phlastr, a'r gobaith yw y bydd yn codi gwên ymysg y cleifion, ymwelwyr a'r staff.



Llyfrgell Cochrane – Ysbyty'r Brifysgol Llandochau

Yn ddiweddar, cefnogodd Panel Bidiau Loteri'r Staff brosiect i wella amgylchedd yr ardal les newydd i'r staff yn Llyfrgell Cochrane yn Ysbyty'r Brifysgol Llandochau.

Mae arian o Loteri'r Staff wedi darparu gweithiau celf lliwgar a modern a feinyll i addurno waliau'r llyfrgell fel rhan o Raglen y Celfyddydau am Iechyd a Lles.

Bydd yr ardal les unswydd yn croesawu staff y GIG i ymlacio, ymdawelu a dod o hyd i wybodaeth am amrywiaeth o fathau o gefnogaeth i iechyd meddwl a lles. Mae modd ei defnyddio hefyd i gynnal gweithgareddau fel clybiau llyfrau a gweithdai ymwybyddiaeth ofalgar.

Gwelliannau yn y Clinig Cynenedigol, Ysbyty'r Brifysgol Llandochau

Mae tîm Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro yn ddiweddar wedi cefnogi prosiect i wella amgylchedd y Clinig Cynenedigol yn Ysbyty'r Brifysgol Llandochau lle mae Clinig yr Enfys hefyd.

Mae Clinig yr Enfys yn gofalu am fenywod a'u partneriaid sydd, yn drist iawn, wedi colli baban neu fabanod yn ystod beichiogrwydd, neu'n fuan ar ôl yr enedigaeth.

Oherwydd natur sensitif yr apwyntiadau ar gyfnod sy'n peri llawer o loes, mae'r amgylchedd yn chwarae rhan bwysig ym mhrofiad y menywod pan fyddant yn treulio amser yn y clinig. Gofynnodd y teuluoedd yn y gorffennol am i awyrgylch y clinig gael ei wella, ac iddynt weld arwyddion o obaith tra byddant yn aros am eu hapwyntiadau.



YMWNEUD

Cyfryngau Cymdeithasol 2022

Twitter

Celfyddydau am lechyd a Lles
Ion-Rhag 2022

234 Dilynwyr Newydd
690 Cyfanswm Dilynwyr
154,4020 Argraffiadau
17,493 Ymweliadau Proffil
572 Crybwylliadau



Twitter

Oriel yr Hearth – Meh-Rhag
22

185 Dilynwyr Newydd
185 Cyfanswm Dilynwyr
24,222 Argraffiadau
9827 Ymweliadau Proffil
68 Crybwylliadau

Facebook

Celfyddydau am lechyd a Lles
Ion-Rhag 2022

169 Hoffi o'r Newydd
537 Hoffi Tudalen
647 Dilyn
39,569 Cwmpas Tudalen
989 Ymweliadau Tudalen



Facebook

Oriel yr Hearth
Meh-Rhag 2022

37 Hoffi o'r Newydd
37 Cyfanswm Hoffi
4848 Cwmpas Tudalen
388 Ymweliadau Tudalen



Instagram

Celfyddydau am lechyd a Lles
Cyfrif Newydd Meh -Rhag 2022

417 Dilynwyr Newydd
417 Cyfanswm Dilynwyr
836 Cwmpas Tudalen
856 Ymweliadau Proffil



Instagram

Oriel yr Hearth
Ion-Rhag 2022

244 Dilynwyr Newydd
1285 Cyfanswm Dilynwyr
7,822 Cwmpas Tudalen
1,617 Ymweliadau Proffil



BETH NESAF 2023

NHS CHARITIES
TOGETHER



BREATHE
ARTS HEALTH RESEARCH



thewallich

Elusennau'r GIG Ynghyd – Cyllid Cyfnod 2

Ers 2020, llwyddodd Rhaglen Celfyddydau am Iechyd a Lles i gyflwyno ystod o weithiau celf newydd a phrosiectau o ganlyniad i gyllid gan Elusennau'r GIG Ynghyd ac yr ydym yn falch o fod wedi derbyn cyllid Cyfnod 2 i allu parhau i ddatblygu mwy ar y rhaglen.

Trwy gydweithio â Materion Iechyd Meddwl, Rubicon Dance, Mind in the Vale, KIRAN Cymru a Gweithdai Beth Morris, ein nod yw creu pedwar prosiect sy'n dathlu ymrwymiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i gydraddoldeb a chynhwysiant i bawb a chefnogi lles cadarnhaol mewn ysbysai a'r gymuned trwy'r celfyddydau.

<https://cardiffandvale.art/nhs-charities-together/>

Cydweithredu gyda'r Wallich

Cawsom arian gan Ymddiriedolaeth Darkley i ddarparu gweithdai creadigol i drigolion Hostel Syr Julian Hodge gyda'r artist Patrick Coombes.

Yn ystod yr ymweliadau â'r hostel, bydd Patrick hefyd yn creu paentiadau a ysbrydolwyd gan storïau'r trigolion a fydd yn cael eu rhoi i'r hostel i'w harddangos yn barhaol.

Breathe Magic yn y GAS

Yng ngwanwyn 2023 rydym yn gweithio gyda Breathe Magic London, i gynnig cyfle i gleifion yn ein Canolfan Adsefydlu wedi Strôc i ymgorffori Swyn yn eu rhaglen o therapi aelodau uchaf y corff. Crëwyd Rhaglen Therapi Dwys Breathe Magic yn wreiddiol i helpu pobl ifanc â hemiplegia (gwendid neu barlys sy'n effeithio ar un ochr i'r corff o ganlyniad i anaf i'r ymennydd neu strôc) trwy gelfyddyd swyn.

Mae triciau Breathe Magic wedi eu dylunio'n arbennig yn cael eu defnyddio i ddatblygu gweithrediad y dwylo a'r breichiau, galluoedd gwybyddol, hunanhyder ac annibyniaeth. Gyda'n gilydd, rydym wedi addasu'r rhaglen i fod o fantais i gleifion strôc o bob oedran a gallu, gyda'r posibilrwydd o gynyddu ystod y symudiadau a chryfder, yn ogystal â lles meddyliol ac emosiynol.

GIG@75

Ar 5 Gorffennaf 2023 byddwn yn cynnal nifer o ddigwyddiadau i ddathlu 75 mlynedd o'r GIG. Ymysg y prosiectau, mae'r artist Harry Holland wedi rhoi cyfle i aelod o'r staff gael ei llun ohoni/o wedi ei baentio ganddo. Rydym wedi bod ynd erbyn enwebiadau trwy gydol y flwyddyn ac edrychwn ymlaen at ddatgelu pwy fydd yr enillydd.

<https://healthcharity.wales/nominate-for-a-portrait/>

Ein Dôl Iechyd

Yn 2023 byddwn yn frwd dros flaenoriaethu datblygu Dôl Ein Hiechyd yn Ysbyty'r Brifysgol Llandochoau.

Ein nod yw sicrhau cyllid i gyfrannu at greu gweithiau celf/cerfluniau i'r ardal a rhoi mwy o gyfleoedd i ddod a gweithdai creadigol awyr agored i'n cleifion, staff ac ymwelwyr.

ADFYFYRION

SUZANNE RANKIN

Prif Weithredwr

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro



Ers ymuno â BIP Caerdydd a'r Fro, rwyf wedi gweld fod Rhaglen y Celfyddydau am Iechyd a Lles yn elfen bwysig o'r modd yr ydym yn gofalu am les y cleifion, ymwelwyr a chydweithwyr. Mae Tîm y Celfyddydau, gyda chefnogaeth Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro, yn rhoi rhaglen unigryw o gyfleoedd i gymryd rhan yn y celfyddydau creadigol i'r sawl sy'n defnyddio ein gwasanaethau ysbyty a chymunedol. Rydym wedi gweld fod yr ymwneud hwn yn gwella profiadau o ofal iechyd a'i fod hefyd yn hyrwyddo lles meddyliol, ysbrydol ac emosiynol. Mae'r rhaglen yn arwain y ffordd yng Nghymru o ran gwreiddio'r celfyddydau creadigol i wella ein gwasanaethau at y dyfodol, ac yr wyf yn falch iawn o lwyddiannau'r tîm.

Yn ystod y cyfnod heriol hwn, bu'n bwysicach nac erioed cefnogi tîm, cleifion ac aelodau o gymunedau CAF o ran darparu gofal holistig a chyfleoedd am hunanfyneant ynghyd â'n gwasanaethau. Mae'r celfyddydau creadigol yn galluogi adrodd storïau personol ac i lawer o leisiau gael eu clywed a'u gwerthfawrogi.

Creodd Tîm y Celfyddydau fannau bywiog sy'n procio'r meddwl, trwy roi cyfleoedd i'n cydweithwyr ymlacio, ac sy'n ymateb i wahanol ddiwylliannau y sawl sy'n defnyddio ein gwasanaethau.

Rwyf yn wastad yn mwynhau gweld gweithiau celf newydd sy'n gwella'r amgylcheddau gofal iechyd, boed hynny yn gelf weledol neu'n brosiectau sydd yn cael eu cynnal ar nifer o safleoedd ac mewn lleoliadau cymunedol.

Mae Tîm y Celfyddydau yn adeiladu perthynas gref gyda nifer o fudiadau sy'n bartneriaid gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru, Sefydliad Baring ac Elusennau'r GIG Ynghyd, a rhwydwaith o artistiaid, sefydliadau celfyddydol a mudiadau'r trydydd sector ac elusennau. Rhan hanfodol o'r partneriaethau hyn a'n hased mwyaf gwerthfawr yw ein cydweithwyr, cleifion ac ymwelwyr sy'n galluogi Rhaglen y Celfyddydau i ffynnu. Gan weithio ynghyd, fe wnawn sicrhau lles y cenedlaethau i ddod, ac edrychaf ymlaen at weld y celfyddydau yn parhau i arloesi a ffynnu yn 2023 a thu hwnt.

ARTS CELF

FOR HEALTH AND WELLBEING

AR GYFER IECHYD A LLES



Cardiff & Vale
HealthCharity
Elusenlechyd
Caerdydd a'r Fro



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



ORIEL YR AELWYD
HEARTH GALLERY

Os hoffech chi ragor o
wybodaeth am ein rhaglen
Celfyddydau ar gyfer
lechyd a Lles, ewch i'n
gwefan
www.cardiffandvale.arts
neu sganiwch y cod QR
hon.



Arts
& Business
Cymru

WNO WELSH
NATIONAL
OPERA
CENEDLAETHOL
CYMRU



**The Baring
Foundation**

Os hoffech gefnogi ein
rhaglen celfyddydau
iechyd a lles, gallwch
gyfrannu trwy'r
wefanneu drwy sganio'r
cod QR hon.

**NHS CHARITIES
TOGETHER**



**RUBICON
DANCE**

